



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref ATISN 9857

Gareth Clubb

Gareth.clubb@foe.co.uk

13 Tachwedd, 2015

Annwyl Mr Clubb

Cais am Wybodaeth – cyfeirnod ATISN 9857

Ysgrifennais atoch ar 29 Hydref ynghylch eich cais. Esboniais fod eich cais yn debygol o fynd dros y terfyn addas. Cawsom ymateb gennych ar yr un diwrnod lle y cyfyngoch eich cais o 'bob gohebiaeth' i 'e-byst yn unig'; gan gadw'r un termau a'r terfyn amser. Gofynnoch hefyd am wybodaeth am 'bob gohebiaeth' a fu rhwng Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a Martin Bates.

Rwyf wedi cynnal chwiliad cychwynnol am yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch ond rwyf wedi dod i'r casgliad y bydd yn dal i gostio mwy na'r terfyn addas a nodwyd yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ystyried eich cais. Y terfyn addas a bennwyd ar gyfer y llywodraeth ganolog yw £600. Wrth gyfrifo a yw cais yn mynd dros y terfyn addas, gallaf ystyried yr amser y mae'n debygol o'i gymryd i ddod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw ac i dynnu'r rhannau perthnasol ohoni. Os amcangyfrifir y bydd y tasgau hyn yn cymryd mwy na 24 awr o amser gwaith i'w cwblhau, byddwn wedi mynd heibio'r terfyn.

Mae rhai o e-byst Martin Bates wedi'u cadw ar ei gyfrif Microsoft Outlook gyda Llywodraeth Cymru. Mae e-byst eraill wedi'u cadw ar system ffeilio electronig ganolog. Byddai angen chwilio yn y ddau le i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, ei hadalw ac i dynnu'r rhannau perthnasol ohoni. Byddai'r chwiliad yn dod o hyd i wybodaeth generig a byddai rhywfaint ohoni'n berthnasol i brosiectau eraill Llywodraeth Cymru. Yn y system ffeilio electronig, mae gwybodaeth yn cael ei storio yn ôl enw'r prosiect a'i rhannu'n is-ffolderi gwahanol. Byddai angen chwilio ym mhob un o'r is-ffolderi hynny i weld a oedd unrhyw e-byst at Martin Bates neu oddi wrtho o fewn y terfyn amser penodol sy'n cynnwys y termau chwilio dan sylw, yn ogystal ag unrhyw e-byst rhyngddo ef a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Rwyf wedi amcangyfrif y byddai'r gwaith hwn yn cymryd mwy na 24 o oriau gwaith i'w cwblhau. Gan fod hyn yn mynd dros y terfyn addas a nodwyd yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004, rwyf wedi penderfynu peidio â phrosesu'ch cais.



Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Martin.bates@cymru.gsi.gov.uk
www.cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Efallai y byddwch am fireinio'ch cais ymhellach drwy nodi pwnc mwy penodol. Byddai hyn yn ein helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Os ydych yn dewis mireinio eich cais fel hyn, bydd yn cael ei drin fel cais newydd.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol: Yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ; neu drwy e-bostio FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk.

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad hwn: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Matt Jones
Peiriannydd Prosiect